



Meini prawf ariannu:

Cronfa Gymunedol Uchel Siryf Gwent

Nod Gronfa Gymunedol Uchel Siryf Gwent 'yw darparu bywyd o ansawdd, mwy diogel a gwell i bobl Gwent trwy gefnogi mentrau a phrosiectau cymunedol sydd yn cefnogi pobl ifanc i leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dyfernir grantiau mewn digwyddiad rhoi grantiau cyfranogol blynyddol ym mis Chwefror 2022.

Pa fath o brosiectau fydd yn cael eu cefnogi?

I fod yn llwyddiannus, rhaid i brosiectau ddangos sut mae eu gweithgareddau'n cyfrannu at un neu fwy o'r canlynol:

- I. darparu cefnogaeth i bobl ifanc sy'n berthnasol iddynt a'r heriau sy'n eu hwynebu yn y 2020au, gan gynnwys sefydlu ymddygiad digidol diogel trwy eu helpu i ddeall risgiau a pheryglon cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwlad;
- II. mynd i'r afael ag effaith a heriau parhaus COVID i bobl ifanc;
- III. gweithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o effaith a chanlyniadau trosedd, gan gynnwys fandaliaeth, difrod troseddol, camddefnyddio alcohol a chyffuriau neu gam-drin sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a seiberfwlio;
- IV. lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy greu cyfleoedd i bobl ifanc a allai fod yn gyflawnwyr ac yn ddioddefwyr troseddau fel cam-drin ar y stryd, fandaliaeth a seiberfwlio;
- V. targedu achosion sylfaenol trosedd a mynd i'r afael â'r problemau sy'n gyrru pobl ifanc i drosedd;
- VI. cynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol sy'n darparu mwy o gefnogaeth gymdeithasol, modelau rôl cadarnhaol a ffactorau amddiffynnol eraill i'w helpu i ddatblygu'n ddinasyddion da yn y dyfodol; a
- VII. cefnogi dioddefwyr troseddau, gan gynnwys cam-drin domestig a chaethwasiaeth fodern, ac amddiffyn y bregus.

Y Grantiau sydd ar gael

Grantiau am 1 flwyddyn

Gwahoddir grwpiau i wneud cais am grantiau o hyd at £5,000 i'w wario yn 2022-23 ar ystod o gostau a allai gynnwys:

- Treialu prosiect newydd
- Costau rhedeg rhaglen o weithgareddau
- Prynu offer a deunyddiau

Grantiau am 3 blwyddyn

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol ac y gall cael cyllid diogel roi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiectau dros y tymor hir. Byddwn yn dyfarnu hyd at £5,000 y flwyddyn i o leiaf un ymgeisydd llwyddiannus am dair blynedd (2022-25). Bydd cyllid parhaus yn destun perfformiad boddhaol bob blwyddyn. I gael eich ystyried ar gyfer y grant tair blynedd hwn, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych chi'n bwriadu datblygu'ch prosiect dros y cyfnod hwn.

Beth yw rhoi grantiau cyfranogol?

Mae rhoi grantiau cyfranogol yn ymwneud â datganoli penderfyniadau gwneud grantiau i'r gymuned leol. Mae'n galluogi pobl leol i benderfynu ar y ffordd orau i fynd i'r afael â materion lleol trwy ddewis cefnogi mentrau sy'n dangos atebion effeithiol orau i'r problemau sy'n wynebu cymunedau yng Ngwent.

Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent.

Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i ddod i'n digwyddiad rhoi grantiau blynyddol ar **19eg Chwefror 2022** mewn lleoliad yn Sir Torfaen. Gwnewch yn siwr bod cynrichiolydd o'ch sefydliad ar gael ar y dyddiad yma cyn gwneud cais.

Pwy all wneud cais?

Defnyddir y Gronfa i gefnogi prosiectau ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed.

Mae'r Gronfa ar agor i grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau lleol yn Gwent (ardaloedd awdurdodau lleol Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chaerffili). Mi fyddem yn blaenoriaethu ceisiadau gan sefydliadau llawr gwlad lle mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol ar gyflawni prosiectau.

Bydd prosiectau sydd wedi derbyn cyllid o'r blaen yn cael eu hystyried. Dylai prosiectau o'r fath ddangos sut y bydd cyllid parhaus yn eu helpu i gydgrynhoi neu wella effaith y prosiect. [Nid oes gofyniad bellach am seibiant 2 flynedd ar ôl 3 flynedd o gyllid grant parhaus.](#)

Rhaid i bob ymgeisydd:

- Gael cyfrif banc yn enw'r grŵp/sefydliad, gan na ellir talu'r grant i unigolion na chyfrifon banc personol
- Gael ei gyfansoddi'n iawn (er nad o reidrwydd yn elusen gofrestredig)
- Gallu cyflwyno eu cyfrifon blynyddol archwiledig diweddaraf, neu, o leiaf, dystiolaeth o incwm a gwariant diweddar

Sut i ymgeisio?

Rhaid i bob grŵp lenwi ffurflen gais ar-lein sydd ar gael ar wefan Sefydliad Cymunedol Cymru erbyn y **6ed o Ragfyr 2021** – [Cliciwch Yma](#)

Cofiwch:

- Ni fyddwn yn dyfarnu grantiau'n ôl weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes yn ddyledus cyn derbyn y llythyr cynnig grant a llofnodi'r telerau ac amodau.
- Rhaid i ymgeiswyr allu dangos yr angen ariannol / chymdeithasol y bydd y grant yn ei ddiwallu.